Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif.1
Legislation Committee No.1

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

15 Gorffennaf 2010

Annwyl Gyfaill

Ymgynghoriad ar Fesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)

Fel rhan o'i ystyriaethau Cyfnod 1, mae Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Pwyllgor') yn galw am dystiolaeth mewn perthynas ag egwyddorion cyffredinol Mesur arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru) ('y Mesur arfaethedig').

Beth yw Mesur?

Darn o ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad yw Mesur. Mae iddo effaith debyg i Ddeddf Seneddol. Gall y Cynulliad basio Mesurau ar unrhyw 'fater' a restrir yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Mesur Arfaethedig yn defnyddio Mater 11.1 mewn perthynas â Thai.

Tra bod Mesur yn mynd drwy'r Cynulliad, caiff ei alw'n 'Fesur arfaethedig'.

Mae pedwar cyfnod yn y broses ar gyfer ystyried Mesur arfaethedig. Yn ystod Cyfnod 1, mae'r Pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig (gan gymryd tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar gan bartïon sydd â diddordeb a rhanddeiliaid) ac mae'r Cynulliad yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol hynny.

Beth mae'r Mesur arfaethedig hwn am ei gyflawni?

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig yn datgan mai prif ddiben y Mesur arfaethedig yw ei gwneud yn ofynnol i ddarparu systemau llethu tân awtomatig mewn mangreoedd preswyl newydd yng Nghymru. Mae hefyd yn nodi:

"Diben darparu systemau llethu tân awtomatig mewn mangreoedd preswyl newydd yw lleihau nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tanau mewn preswylfeydd newydd yng Nghymru. Byddai gofyniad i osod systemau o'r fath ym mhob mangre preswyl newydd yn fesur ataliol a fyddai'n rheoli tanau ac yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn lledaenu, a hynny fel bod modd i bobl ddianc o'u cartrefu pe bai tân yn digwydd. Byddai hefyd yn lleihau nifer y llosgiadau sy'n digwydd o ganlyniad i danau a'r risg i ddiffoddwyr tân sy'n cael eu galw i ddelio â thanau."

Beth yw swyddogaeth y pwyllgor?

Swyddogaeth Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chyflwyno adroddiad arnynt.

Sut y gallwch chi helpu – y cwestiynau ymgynghori

Ceir manylion pellach am y Mesur arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn:

Y Mesur arfaethedig

Y Memorandwm Esboniadol

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i hwyluso'r gwaith o graffu ar y Mesur arfaethedig. Yr benodol, byddwn yn croesawu eich barn am y cwestiynau a restrir yn **Atodiad A.**

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad i legislationoffice@wales.gov.uk a rhowch *Ymgynghoriad – Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)* fel pennawd i'r ebost. Os byddai'n well gennych anfon eich cyflwyniad ar ffurf copi caled, anfonwch hwn at Claire Griffiths, Dirprwy Glerc y Cynulliad, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai cyflwyniadau gyrraedd y swyddfa erbyn dydd Gwener 3 Medi 2010. Efallai na fydd yn bosibl ystyried ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y **broses ddeddfwriaethol** yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-measures.htm

Wrth baratoi eich cyflwyniad, dylech ystyried y pwyntiau a ganlyn:

- dylai eich ymateb fod mor gryno â phosibl a dylai fynd i'r afael â'r materion sydd gerbron y Pwyllgor. Defnyddiwch y pennawd uchod fel cyfeirnod i'ch ymateb;

- bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel arfer yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'r cyhoeddus graffu arnynt ac efallai y bydd Aelodau'r Cynulliad yn eu trafod yn ystod cyfarfodydd pwyllgor hefyd. **Os nad ydych am i ni gyhoeddi eich ymateb neu eich enw, mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn yn glir yn eich cyflwyniad;** a
- nodwch os ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig dros yr haf ac ar ddechrau tymor yr hydref.

Os oes gennych ragor o ymholiadau, cysylltwch â Liz Wilkinson, Clerc y Pwyllgor ar 029 2089 8025 neu Claire Griffiths, y Dirprwy Glerc ar 029 2082 1990.

Yn gywir

Rosemary Butler AC
Cadeirydd y Pwyllgor

Atodiad A

Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)

Cwestiynau ymgynghori

1. A oes angen Mesur arfaethedig i gyflawni'r amcan o leihau nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tanau mewn preswylfeydd newydd yng Nghymru?

2. A ydych yn credu y bydd y darpariaethau allweddol o fewn y Mesur arfaethedig yn helpu i gyflawni'r nod uchod?

Wrth ystyried y cwestiwn hwn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi sylwadau ar y canlynol:

(a) y dyletswydd i ddarparu systemau llethu tân awtomatig mewn preswylfeydd newydd yng Nghymru (adran 1(1));

(b) y mathau o waith adeiladu y bydd y dyletswydd hwn yn gymwys iddynt. Hynny yw, gwaith adeiladu a gyflawnir i adeiladu adeilad, trosi adeilad (neu ran o adeilad) i fod yn breswylfa (neu'n breswylfeydd); neu isrannu neu gyfuno un breswylfa bresennol neu fwy er mwyn creu preswylfa (neu breswylfeydd) newydd (adran 1(2));

(c) y darpariaethau gorfodi (adran 2);

(d) priodoldeb y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru ragnodi mewn rheoliadau –

- gofynion y mae'n rhaid i'r system llethu tân awtomatig gydymffurfio â hwy (adran 1(4)); a
- darparu gwybodaeth i fynd â'r cynlluniau ar gyfer gwaith adeiladu (adran 3(1) a (2));

(e) darpariaeth gyffredinol mewn perthynas â –

- dehongli (adran 4)
- rheoliadau a gorchmynion (adran 6).

3. Beth yw goblygiadau ymarferol y Mesur arfaethedig, ac yn benodol, a ydych yn credu bod unrhyw rwystrau posibl i roi'r darpariaethau sy'n cael eu cynnwys yn y Mesur arfaethedig ar waith?

4. Beth yw goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig, os o gwbl? Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n amcangyfrif cost a budd rhoi'r Mesur arfaethedig ar waith.

Os hoffech wneud unrhyw sylwadau pellach am y Mesur arfaethedig na gynhwyswyd yn eich atebion i'r cwestiynau uchod, mae croeso i chi wneud hynny.

Atodiad 4

Rhestr o dystion posibl i roi tystiolaeth lafar

- Ann Jones AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur Arfaethedig

- Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Thai

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

- Cynrychiolwyr o bob Gwasanaeth Tân ac Achub rhanbarthol

- Cartrefi Cymunedol Cymru

- Cynrychiolwyr o'r diwydiant adeiladu (Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi os yn bosibl)

- Cynrychiolwyr sy'n arbenigo mewn systemau llethu tân awtomatig, neu sydd â phrofiad ohonynt (Cymdeithas Systemau Llethu Tân Awtomatig Prydain os yn bosibl)

Os bydd digon o amser ac yn dibynnu ar y dystiolaeth ysgrifenedig a ddaw i law:

- Dŵr Cymru Welsh Water

- Cymdeithas Yswirwyr Prydain